

## 2. ARCHWILIO'R POSIBILIADAU

(cysylltu'n uniongyrchol gyda modiwlau Enillwch Brofiad 1 a 2 Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe)

### 🌟 BETH SYDD AR GAEL?

Mae nifer o gyfleoedd i raddedigion ar gael i fyfyrwyr gan ystod o bynciau academiaidd. Boed eu bod yn aros yn eu disgyblaeth neu'n newid maes bydd yr hyn sy'n bosib iddynt yn newid o hyd fel yr amlinellir gan Arti Kumar yn "Personal, Academic and Career Development in Higher Education: SOARing to Success".

*"Rydym yn byw mewn byd lle mae newid yn gynt ac yn gynt... (paratoi myfyrwyr) am einioes o ansicrwydd, newid a chyfleoedd newydd neu gyfleoedd a grëwyd gennych chi eich hun".*

### 🌟 SUT FYDDAF YN PENDERFYNU?

Bydd gan bobl wahanol arddulliau o wneud penderfyniadau; mae rhai yn rhesymegol iawn, rhai eraill yn reddfodol neu'n seiliedig ar gymuned tra efallai bydd rhai yn "dilyn y llif llanw". Mae'n ddefnyddiol sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol ac yn gywir, bod opsiynau eang yn cael eu hystyried ac nid yw emosiynau tymor byr yn cael eu caniatáu i oruchafu arnoch yn ddi-fudd.

#### PWYNTIAU TRAFOD AWGRYMEDIG:

- Pa mor ymwybodol ydy'r myfyrwyr o'r opsiynau sydd ar gael iddynt o ganlyniad i'w graddau / fel graddedigion, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol?
- Pa gamau allant eu cymryd i dderbyn mewnwleidiad i'r opsiynau hyn a datblygu eu rhwydweithiau?
- Sut benderfynodd y myfyrwr/myfyrwyr ar ddod i Abertawe, i astudio eu pwnc?

#### GWEITHREDOEDD AWGRYMEDIG I FYFYRWYR:

#### DYDDIAD

Archwilio ac ymuno â chymdeithasau a gweithgareddau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Mynd i Barth Cyflogadwyedd Academi Cyflogadwyedd Abertawe i wneud cais am leoliadau, swyddi i raddedigion, gwaith rhan-amser  
[myuni.swansea.ac.uk/employability/jobs-board](http://myuni.swansea.ac.uk/employability/jobs-board)

Ymchwilio gwirfoddoli a chyfleoedd gyda Darganfod, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol a mudiadau allanol

Mynychu gweithdai a arweinir gan gyflogwyr i ddeall eu safbwynt  
[myuni.swan.ac.uk/careers/workshops-and-talks](http://myuni.swan.ac.uk/careers/workshops-and-talks)

Mynychu gweithdy cyflogadwyedd a hwylusir gan dîm Academi Cyflogadwyedd Abertawe  
[myuni.swan.ac.uk/careers/workshops-and-talks](http://myuni.swan.ac.uk/careers/workshops-and-talks)

Dysgu mwy am wneud penderfyniadau ar  
[myuni.swan.ac.uk/employability/decision-making/](http://myuni.swan.ac.uk/employability/decision-making/)

Asesu eich arddull o wneud penderfyniadau trwy gwblhau  
[pebblepad.swan.ac.uk/download.aspx/166928/index\\_flash.htm?allowsript=true](http://pebblepad.swan.ac.uk/download.aspx/166928/index_flash.htm?allowsript=true)

Cwblhau modiwl(au) Enillwch Brofiad Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe (os yw'r myfyrwyr eisoes wedi ennill un neu ddwy o setiau 21+ awr o brofiad)

Dilyn Academi Cyflogadwyedd Abertawe ar gyfryngau cymdeithasol

Gweithredu ychwanegol .....

Gweithredu ychwanegol .....